*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod rhithwir o'r CABINET yn cael ei gynnal ar Dydd Iau, 24ain Medi, 2020 am 11.00 am**

**Dolen gyswllt: Hannah Williams - Blaen Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol (Rhif ffôn. 01443 424062)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 22 Medi 2020. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

## MATERION I'W TRAFOD

## 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

Nodwch:
1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

## 2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2020 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 10)**

## 3. CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD

Derbyn Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020, yn dilyn y diwygiadau a gafodd eu hadrodd yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor.

**4. RHAGLEN WAITH Y CABINET 2020-2021**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i'r Cabinet eu hystyried yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2020–21.

**(Tudalennau 11 - 40)**

**5. RHAGLEN YSGOLION A CHOLEGAU'R 21AIN GANRIF - MODEL BUDDSODDI CYDFUDDIANNOL (MIM) PARTNERIAETH ADDYSG GYMRAEG YSGOLION YR 21AIN GANRIF - CYTUNDEB PARTNERU STRATEGOL (SPA)**

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am elfen ariannu'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) ar gyfer rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru.

**(Tudalennau 41 - 2350)**

**6. RHAGLEN GYFALAF Y CYNGOR 2020/21**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol, sy'n rhoi manylion cam 2 y rhaglenni cyfalaf atodol arfaethedig ar gyfer Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant a Gwasanaethau'r Priffyrdd, Trafnidiaeth a Chynlluniau Strategol i'r Cabinet.

**(Tudalennau 2351 - 2396)**

**7. ADOLYGIAD O'R PORTFFOLIO GRANTIAU BUSNES ADFYWIO**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu, sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i newid y cynlluniau grant cymorth i fusnesau cyfredol sy'n cael eu darparu gan y Gwasanaeth Adfywio, ac i sefydlu tri chynllun pellach – Grant Adfer Canol y Dref yn sgil COVID-19, y Gronfa Fuddsoddi ar gyfer Prosiectau Mawr a'r Grant Gwrthsefyll Llifogydd.

**(Tudalennau 2397 - 2404)**

**8. ADRODDIAD CYFLAWNIAD Y CYNGOR AR GYFER Y CHWARTER CYNTAF**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol sy'n rhoi crynodeb i'r Cynghorwyr am gyflawniad y Cyngor dros dri mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon (hyd at 30 Mehefin 2020), mewn perthynas â materion ariannol a gweithredol fel ei gilydd.

**(Tudalennau 2405 - 2438)**

**9. SEFYDLU ASIANTAETH GOSOD TAI CYMDEITHASOL**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned, sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet am y cynnig i sefydlu Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol i reoli eiddo rhent preifat ar ran landlordiaid preifat a sicrhau dyraniadau tai addas i gleientiaid sydd angen tai. Mae'r adroddiad yn ceisio gwneud Aelodau'n effro i oblygiadau ariannol posibl gweithredu Asiantaeth o'r fath pe bai cyllid grant allanol a sicrhawyd at y diben hwn yn dod i ben.

**(Tudalennau 2439 - 2452)**

**10. CYMERADWYO CYNLLUNIAU THEATRAU RHONDDA CYNON TAF O RAN CYNHYRCHU PERFFORMIAD NADOLIG DIGIDOL I'W RANNU AR-LEIN YM MIS RHAGFYR 2020**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned, sy'n rhoi gwybodaeth i Aelodau'r Cabinet mewn perthynas â'r cynnig i Theatrau Rhondda Cynon Taf gynhyrchu perfformiad Nadolig digidol i'w rannu ar-lein ym mis Rhagfyr 2020.

**(Tudalennau 2453 - 2458)**

**11. ADNEWYDDU'R YMGYNGHORIAD AR DDIOGELU MANNAU CYHOEDDUS**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned a Chyfarwyddwr Cyfadran Materion Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng Flaen a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, sy'n hysbysu'r Cabinet o ganlyniadau'r gweithgaredd ymgynghori â'r cyhoedd ac sy'n ceisio caniatâd i ymestyn y ddau Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus sy'n ymwneud â mesurau rheoli cŵn yn Rhondda Cynon Taf (y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus - Rheoli Cŵn).

**(Tudalennau 2459 - 2504)**

**12. GOGLEDD PORTH CWM CYNON (FFORDD OSGOI ABERDÂR)**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfadran Materion Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng Flaen sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf am ddatblygu a chyflawni'r cynllun trafnidiaeth sylweddol: Gogledd Porth Cwm Cynon (Ffordd Osgoi Aberdâr).

**(Tudalennau 2505 - 2516)**

**13. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**<u>Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</u>**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd G Hopkins

**Swyddogion:** Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu